BLUEFISH

Meithrin Gwydnwch y Twf Glas ym Mhysgodfeydd ac Awafeithrin Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.

Ymgyrch drawsffiniol y Moroedd Gwyddelig a Cheltaidd.

Meithrin Gwydnwch y Twf Glas ym Mhysgodfeydd
BlueFish
ac Acwafeithrin Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Ireland's European Structural and Investment Funds Programmes 2014-2020
Co-funded by the Irish Government and the European Union
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Contents

1.0	Cyflwyniad	2
2.1	Rhyngweithiadau troffig	3
2.2	Mapio ysglyfaethwyr	6
2.3	Pysgod cregyn a newid hinsawdd	9
2.4	Nwyddau a gwasanaethau ecosystem	11
3.1	Cregyn bylchog	14
3.2	Draenogiaid y Môr Ewropeaidd	18
3.3	Hadau pysgod cregyn	23
4.1	Rhywogaethau goresgynnol	26
4.2	Iechyd cocos	31
4.3	Cysylltedd clefydau	33
4.4	Pathogenau sy’n datblygu ym Môr Iwerddon	36
5.1	Modelau a senarios	38
	Cymraeg	44

Cyflwyniad

Mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar gefnforoedd ac arfordiroedd y byd, ac mae moroedd rhanbarthol Ewrop yn dangos rhai o'r effeithiau mwyaf amlwg a sydyn. Mae cefnforoedd yn gorchuddio dwy ran o dair o arwyneb y ddaear, maen nhw'n elfen hanfodol o ecosystem y Ddaear ac yn hollbwysig i ddatblygiad cynaliadwy. Yn ôl senarios sydd wedi'u rhagfynegi ar gyfer y dyfodol, mae ymarferoldeb ecosystemau morol bas yn debygol o newid gydag effeithiau ar rywogaethau bwyd neu o berthnasedd masnachol i gymunedau arfordirol. Prin iawn yw'r ddealltwriaeth o ganlyniadau effeithiau presennol ac a ragfynegir yr hinsawdd ar bysgod, pysgod cregyn a dyframaeth ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd. Yn bwysig, mae cefnforoedd yn cyfrannu at liniaru tlodi ac maen nhw'n hanfodol ar gyfer diogelwch bwyd byd-eang ac iechyd pobl. Bydd cymhlethdod y rhyngweithio rhwng rhywogaethau a newid hinsawdd byd-eang yn gofyn am ymchwil a dealltwriaeth drawswladol amlddisgyblaethol barhaus. Bydd dealltwriaeth gyfunol o brosesau ac effeithiau ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd yn allweddol i sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o effeithiau newid hinsawdd ac yn helpu i gynnal twf glas ledled y rhanbarth. Gall newidiadau ar un arfordir gael effeithiau uniongyrchol a sydyn ar yr arfordir arall gan danlinellu pa mor hanfodol yw dull trawsffiniol o ymdrin â'r materion sy'n cael eu cyflwyno gan newid amgylcheddau a hinsawdd i bysgod, pysgod cregyn a gweithgareddau dyframaethu o fewn yr ardal forol ar y cyd rhwng Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.

Gan ategu etifeddiaeth, argymhellion ac arbenigedd consortiwm sy'n deillio o brosiect SUSFISH (2009 – 13) nod BlueFish yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o adnoddau morol Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd trwy lenwi bylchau gwybodaeth am effeithiau ar rai pysgod masnachol a physgod cregyn yn sgil newid hinsawdd a'u posibilrwydd o fod yn agored i niwed o'i herwydd.

Daeth Prosiect BlueFish â Phrifysgolion Bangor, Aberystwyth, Abertawe a Cork, y Sefydliad Morol a Bord Iascaigh Mhara at ei gilydd. Mae wedi'i ariannu ar y cyd gan Raglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru ar gyfer Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd, gan ganolbwyntio ar gydweithredu trawsffiniol, newid hinsawdd ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'n fyr y gweithgareddau ym mhob un o'r tudalennau gwaith cyn ein cynhadledd gloi ar gyfer Prosiect BlueFish, wedi'i hariannu drwy Raglen Iwerddon Cymru 2014 – 2020.

Ni fyddai Rhaglen BlueFish wedi bod yn bosibl heb yr arian a gafwyd gan gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014 - 2020. Ni fyddai ein cyflawniadau wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth sawl sefydliad yn cydweithio â ni i wella'r amgylchedd morol ac arfordirol a thrwy ein hymgysylltiad â chymunedau arfordirol yng Nghymru ac Iwerddon.

WP1	**Rheoli Prosiect**
WP2	**Deall Ecosystemau**
WP3	**Adnoddau Ecosystemau**
WP4	**Iechyd Ecosystemau**
WP5	**Newid Ecosystemau**
WP6	**Lledaenu Cyfathrebu**



GWEITHGAREDD 2.1 RHYNGWEITHIADAU TROFFIG

CYFRANOGWYR: P Daly, R Browne (BIM); L Le Vay, M Walton (BU)

AMCANION: Deall rhyngweithiadau troffig (ac eraill) rhwng gwahanol rywogaethau o fewn ardal astudiaeth achos Berehaven, Bae Bantry. Yn benodol:

1. Mapio/Diffinio rhyngweithiadau rhywogaethau/dyframaeth heddiw
2. Modelu senarios dyframaeth yn y dyfodol
3. Amlygu newidiadau / bygythiadau i ddyframaeth. Adrodd ar strategaethau ymaddasu

PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Mae gwaith olrhain cysylltiadau troffig gan ddefnyddio isotopau sefydlog yn dangos nad yw twf cregyn gleision nac algaidd wedi ei gefnogi'n sylweddol gan fewnbynnau maethynnau o amaethu eogiaid ac nid yw hyn yn newid yn ôl pa mor agos ydyw at yr unedau amaethu eogiaid.
2. Mae cynaeafu cregyn gleision yn arwain at ddileu nitrogen, sy'n cyfateb i'r hyn a ryddheir gan y fferm eogiaid. Felly, mae dyframaethu echdynnol yn gwrthbwyso'r defnydd o faethynnau ar gyfer cynhyrchu pysgod.
3. Mae gwymon detritws yn ffynhonnell bwysig o faethynnau i gregyn gleision (cyfraniad cymedrig o 50-60% o'r deiet), ac mae cysylltiad gwrthdro rhwng cyfraniad y gwymon a dwysedd ffytoplancton, gan ddarparu ffynhonnell fwyd hanfodol pan fo dwyseddau ffytoplancton yn isel.
4. Roedd cyfraniad dietegol gwymon detritws i gregyn gleision yn amrywio'n gyson yn ôl lleoliad o fewn Berehaven ac roedd yn fwy mewn gorsafoedd lle'r oedd modelau hydrodynamig yn dangos symudiad dŵr cyflymach.
5. Gallai newid yn yr hinsawdd gael effaith bwysig ar gapasiti cario cregyn gleision os bydd dwysedd gwymon yn gostwng yn unol â'r hyn a ragwelir o ganlyniad i'r dyfroedd yn cynhesu.



Leiniau hir llusg cregyn gleision
Cewyll eogiaid
Pwyntiau sampl bwi
Pwynt sampl dŵr agored
Bwi arbrofol

Ffig. 1: Lleoliad pwyntiau samplu a gosodiadau dyframaethu o fewn Berehaven rhwng Ynys Bere a Gorynys Beara o dir mawr Iwerddon.



Ffig. 2: Gwerthoedd isotop sefydlog (%) o 13C a 15N o ffynonellau bwyd a chregyn gleision o fwiau o fewn Berehaven

	Sampl:	Gwymon detritws	Deunydd organig gronynnol	Porthiant eogiaid
	Sample	Kelp detritus	POM	Salmon feed
Ebrill 2018	April 2018	67.7% (41-80.4%)	21.9% (2-46.8%)	10.5% (0.6-27.7)
Mehefin 2018	June 2018	65% (38.8-87.7%)	35% (12.3-61.2%)	
Mai 2018	May 2019	43.7% (8.8-80.8%)	50.7% (13.1-86.9%)	5.6% (0.1-36.3%)
Medi 2019 (oedolyn)	Sept 2019 (adult)	64.1% (52-77.7%)	24.9% (2.5-44.4%)	11% (0.5-26.8%)

Tabl 1: Cyfraniad dietegol cymedrig a chyfnodau hyder o 95% o wymon detritws, deunydd organig gronynnol (POM) a phorthiant eogiaid i dagell a meinwe mantell cregyn gleision

ARGYMHELLION:

1. Dylai lefel cynaeafu gwymon trwyddedig ystyried goblygiadau'r cyfraniad troffig gwymon detritws lle mae crynodiadau cloroffyl wyneb yn amrywio'n dymhorol
2. Gan y rhagwelir y bydd y cynnydd i dymheredd y môr yn gostwng dwysedd gwymon, dylid blaenoriaethu ymdrechion i gynyddu gallu systemau gwymon i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd

ALLBYNNAU:

Cyfarfodydd: Gan gynnwys: Cynhadledd newid hinsawdd (4 Ebrill 2019, Rorvik, Norwy), Integreiddio (Dyframaeth Amldroffig) (7 ac 8 Mawrth 2019, NUI Galway), Cyfarfod Gwyddor BlueFish (13 a 14 Mawrth 2019, Aberystwyth)

Ymgysylltu â'r gymuned arfordirol: Cyfarfod rhanddeiliaid ar waith ac amcanion prosiect BlueFish yn BIM, y Ganolfan Pysgodfeydd Rhanbarthol, Castletownbere (12 Mehefin 2018), Sgwrs siop goffi ar waith ac amcanion prosiect BlueFish (15 Ebrill 2019, Westport, Swydd Mayo), Cinio a dysgu (29 Mai 2019, BIM, Dun Laoghaire, Swydd Dulyn)

CYHOEDDIADAU YMCHWIL

Walton, M., Browne, R., Malham, S., Le Vay, L. (yn cael ei baratoi). The importance of kelp detritus as a food source for mussels.



GWEITHGAREDD 2.2. MAPIO YSGLYFAETHWYR

CYFRANOGWYR: L Börger, E Shepard, S de Grissac (SU) M Jessop, EA Quinn (UCC).

AMCANION: Pennu:

1. Mesur sut y mae ysglyfaethwyr morol yn rhyngweithio â physgodfeydd ym Môr Iwerddon.
2. Asesu sut y gall newid yn yr hinsawdd a newidiadau mewn pysgodfeydd effeithio ar gynefin a dosbarthiad y prif ysglyfaethwyr morol.

PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Datblygu cronfa ddata o symudiadau adar morol ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd, gan gynnwys 871 o unigolion o 8 rhywogaeth, gyda 3,650 o deithiau yn y môr ac mewn 1,600,966 o leoliadau GPS, gan ddefnyddio data a gasglwyd ar draws 6 sefydliad (gweler y ddelwedd grynhoi ar y chwith isod, wedi'i lliwio yn ôl rhywogaeth).
2. Rydym yn dangos y gellir rhagfynegi dosbarthiad adar drycin y graig sy'n porthi ar y môr o ddosbarthiad llongau pysgota, a bod hwn yn rhagfynegydd mwy pwerus nag unrhyw newidyn hinsoddol neu fiolegol. Dangoswyd hyn trwy ddefnyddio data symud amledd uchel adar drycin y graig yn y gogledd yn ystod prosiect BLUEFISH.





ALLBYNNAU:
Cyfarfodydd: Yn cynnwys Cymdeithas Ecolegol Prydain (Birmingham, Rhagfyr 2018), Cynhadledd y Seabird Group (Lerpwl, Medi 2018), cyfarfod Ecoleg ac Ymddygiad (Toulouse, Mai 2019).
Cyfryngau: Mae enghreifftiau'n cynnwys cynhyrchu ffilm wyddoniaeth gyhoeddus fer i dynnu sylw at y rhyngweithio rhwng pysgodfeydd ac adar morol, gan ddefnyddio adar drycin y graig yn y gogledd fel enghraifft (Vimeo, YouTube 620 o wylwyr). Cyfwelwyd ag S de Grissac hefyd am ei gwaith ar radio yr Almaen a chyflwynodd ddelwedd i'r gystadleuaeth Ymchwil fel Celf, Prifysgol Abertawe (dyma'r ddelwedd ar y dde, uchod, lle mae'r cefndir du a gwyn yn cynrychioli gweithgareddau pysgota, o du (dim) i wyn (dwys) ac mae'r siapiau consentrig drosto yn cynrychioli ardaloedd pysgota Adar drycin y graig (pinc), Palod Manaw (glas) a Phalod (oren) gyda lliwiau tywyllach yn greiddiol.
Ymgysylltu â'r gymuned arfordirol: Cynhyrchodd tîm BLUEFISH ffilm am ryngweithio rhwng adar drycin y graig a physgodfeydd yn y môr Celtaidd, gan dynnu sylw at swyddogaeth olrhain anifeiliaid o ran deall i ba raddau y mae adar morol yn cysylltu â llongau pysgota.
Mae'r ffilm hon yn dal i fod ar gael ar YouTube (https://www.youtube.com/watch?v=EiecZf3LyqY) a Vimeo (https://vimeo.com/351864073/2d063b4895).



CYHOEDDIADAU YMCHWIL

Darby, J.H., **de Grissac**, **S.**, Arneill, G., Pirotta, E., Waggitt, J.J., **Börger, L.**, **Shepard, E.**, Cabot, D., Owen, E., Bolton, M., Edwards, E., Thompson, P., **Quinn, J.**, **Jessop**, **M.** (yn cael ei adolygu) The foraging distribution of breeding northern fulmars is predicted by commercial fisheries. *Marine Ecology Progress Series.*

GWEITHGAREDD 2.3. PYSGOD CREGYN A NEWID HINSAWDD

CYFRANOGWYR: NG King, SK Malham, J Thorpe (BU); NJ McKeown, I Skujina (AU).

AMCANION: Deall sut y bydd gwasgariad pysgod cregyn yn newid yng ngogledd-ddwyrain Cefnfor yr Iwerydd a nodi pwyntiau tipio ffisiolegol mewn rhywogaethau deufalf allweddol. Yn benodol:

1. Defnyddio modelu arbenigol mecanistig i ragfynegi ble a phryd y rhagorir ar drothwyon atgenhedlol wystrys y Môr Tawel gan hwyluso'u lledaeniad yn y dyfodol.
2. Nodi pwyntiau tipio ffisiolegol mewn rhywogaethau rhynglanwol allweddol a defnyddio'r rhain i ragfynegi ble y gallai poblogaethau ddirywio'n sydyn yn y dyfodol.
3. Penderfynu a yw gwres mawr yn y môr yn newid y gymuned facterol gysylltiedig o rywogaethau/poblogaethau sy'n dueddol o ddioddef marwolaethau yn yr haf.

PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Bydd ystod wystrys y Môr Tawel yn ehangu yng ngogledd-ddwyrain Cefnfor yr Iwerydd wedi ei gyflawni trwy fodloni gofynion thermol silio ac aneddiadau yn gynyddol (Ffigur 1). Bydd hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Sgafell Gogledd-orllewin Ewrop erbyn 2100 ac yn arwain at ddyddiadau silio cynharach.
2. Nododd profion straen arbrofol bwyntiau tipio ffisiolegol allweddol yn y cregyn gleision, *Mytilus edulis*, i straen llanw isel. Mae cymharu'r pwyntiau tipio hyn â data logio rhynglanwol yn Afon Menai yn dangos y rhagorir ar y pwyntiau tipio yn ystod digwyddiadau gwres mawr atmosfferig ac mae'n bosibl bod marwolaethau eisoes yn digwydd (Ffigur 2)
3. Dangosodd arbrofion amgylchedd rheoledig nad yw gwres mawr morol yn effeithio ar ficrobiom y cocos, *Cerastaderma edule*.

ARGYMHELLION:

1. Mae *C. gigas yn* cael ei ffermio ledled gogledd-ddwyrain Cefnfor yr Iwerydd a bydd ei ffin cynefino yn symud fwyfwy i'r gogledd dros y degawdau nesaf. Yn y tymor byr, gall triploidau ffermio a difodiadau atal cynefino lleol. Fodd bynnag, yn y tymor hir mae'n annhebygol y bydd strategaethau rheoli lleol yn atal ehangiadau. Yma, efallai y bydd angen newid canfyddiadau er mwyn rheoli'n effeithiol boblogaethau sy'n dod i'r amlwg.



Ffigur 1: Cyfran y blynyddoedd y rhagorir ar drothwyon aneddiadau C. gigas ar gyfer llinell sylfaen bresennol (2000-2019) a'r dyfodol (2080-2099) ar draws Sgafell Gogledd-orllewin Ewrop.

2. Bydd digwyddiadau gwres mawr amlach a mwy dwys. Rydym yn argymell y gallai fod angen cadw golwg ar farwolaethau yn y maes a llunio atebion rheoli addasol posibl i atal marwolaethau er mwyn lleihau nifer y marwolaethau.



Temperature °C: Tymheredd °C
% Mortality: % Marwoldeb
# Gaping: # Bwlch

Ffigur 2. A) data cofnodydd rhynglanwol ar gyfer Afon Menai, Cymru yn ystod 2018. B) Bwlch (bariau) a marwolaethau cronnol M. edulis i brofion straen o'r awyr. Glas = 30 °C, oren = 35 °C a coch = 40 °C

ALLBYNNAU:

Cyfarfodydd: Gweithdy Naemo Oban, 2019. Cyfarfod ARCH-UK a BLUEFISH ar y cyd. Neuadd y Gwerthwyr Pysgod Llundain 2018. Gweithdy addasu arfordirol Brasil, 2018.

Ymgysylltu â'r gymuned arfordirol: Festival of Discovery (2019)

CYHOEDDIADAU YMCHWIL

King N., Wilmes SB., Smyth D., Tinker D., **Robins P**., **Thorpe J**., Jones L., **Malham S**., Climate change accelerates range expansion of the invasive non-native species, the Pacific oyster, *Magallana gigas*. ICES Journal of Marine Science. fsaa189

Jones, L et al., (2020). Climate driven threshold effects in the natural environment. Report to the Climate Change Committee. Mawrth 2020.

GWEITHGAREDD 2.4 NWYDDAU A GWASANAETHAU ECOSYSTEM

CYFRANOGWYR: P Connolly, F Donnelly, S Sugrue (MI); F Ratcliffe (SU)

AMCANION:

- Trosglwyddo gwybodaeth i randdeiliaid, gan gynnwys polisi a diwydiant ar y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan ecosystem Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd i gymunedau arfordirol Iwerddon a Chymru ac i'r gymdeithas ehangach.
- Amlinellu ac egluro'r nwyddau a gwasanaethau hyn gan ddefnyddio sgemateg syml a ddatblygwyd gan artist proffesiynol.
- Canolbwyntio ar y manteision cadarnhaol y mae pobl yn eu cael o'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn.
- Amlinellu effaith senarios amrywiol newid yn yr hinsawdd ar y nwyddau a'r gwasanaethau hyn.
- Defnyddio'r sgemateg i lywio'r ddadl ar wella diogelwch, lles ac iechyd, ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

PRIF GYFLAWNIADAU:

Portffolio BlueFish "Building Resilience into Blue Growth in the Irish and Celtic Seas Fisheries and Aquaculture." Amcan penodol allweddol y gweithgaredd hwn yw symleiddio cysyniadau cymhleth drwy asio celf a gwyddoniaeth a llywio'r ddadl mewn cymunedau arfordirol yng Nghymru ac Iwerddon ar wella diogelwch, lles ac iechyd ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, daeth yr MI ag artistiaid, gwyddonwyr morol ac economegwyr amgylcheddol at ei gilydd a thrwy weithio'n agos gyda'n partneriaid prosiect a'n cymunedau arfordirol, mae portffolio sylweddol o waith celf a ffeithlun aml-gyfrwng wedi'i ddatblygu bellach.
Mae Portffolio BlueFish wedi'i strwythuro yn ôl y pedair thema benodol ganlynol ac mae'n cynnwys 60 darn a gomisiynwyd i fynd i'r afael â phob elfen allweddol

- Thema 1 Deall Nwyddau a Gwasanaethau Ecosystem
- Thema 2 Ymgysylltu â'r Gymuned Arfordirol, effeithiau economaidd, barn a manteision cymdeithasol
- Thema 3 Cysylltu celf a gwyddoniaeth. Dehongliadau o effeithiau Newid yn yr Hinsawdd
- Thema 4 Diogelwch Bwyd, Lles ac Iechyd

ALLBYNNAU:

Er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf effeithiol o ran hyrwyddo gwaith BlueFish, mae'r portffolio o waith celf wedi ei ddefnyddio'n helaeth i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo ac addysgol a'r cyfryngau ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, polisi a'r cyhoedd. Mae diben i'r holl ddeunyddiau a'u nod yw egluro effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gymunedau arfordirol Môr Iwerddon / Môr Celtaidd. Mae'r gyfres lawn o allbynnau sydd ar gael yn cynnwys amrywiaeth o faneri arddangos, ffeithluniau, posteri, cardiau post, animeiddio a chompendiwm.

Math o Arddangos/Hyrwyddo - Stondin Arddangos, Posteri a Chardiau Post (Ar gael ar ffurf ffeiliau parod i'w hargraffu eglurdeb uchel digidol ac eglurdeb isel i'w defnyddio ar y we hefyd).

- Môr Iwerddon - Nwyddau a Gwasanaethau Ecosystem y Môr Celtaidd - Sut y bydd Newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Ecosystem Môr Iwerddon-Môr Celtaidd? (Karen Nolan)
- Eiconau WP BlueFish (Karen Nolan/MI)
- Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Gymunedau Arfordirol Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd (Rosin Cure/Sharon Sugrue/MI)
- Senarios Newid gwerth economaidd amcangyfrifedig yr ecosystem forol i gymunedau arfordirol Iwerddon a Chymru
- Amcangyfrif o werth economaidd yr ecosystem forol i gymunedau Arfordirol Iwerddon a Chymru. (Rosin Cure /CountryScape/economeg ar gyfer Ymgynghoriaeth yr Amgylchedd/MI)
- Dehongliadau o Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd (Simon Royer a Cathy Bacon/MI)
- Rhywogaethau Eiconig Môr Iwerddon – FrancesRatcliffe (SU)/MI
- Rhywogaethau eiconig y Môr Celtaidd. Miranda Walker /MI
- Animeiddiad: Demystify – Cysylltu Celf a Gwyddoniaeth i egluro newid yn yr hinsawdd. Pob artist a ffeithlun/MI
- Compendiwm Arddangos: Demystify – Casgliad o Waith Celf a Gynhyrchwyd ar gyfer Prosiect Bluefish (Gweithgaredd 2.4) Pob artist a ffeithlun/MI



ALLGYMORTH:
Cyfryngau:
Newyddion a Digwyddiadau'r Sefydliad Morol: "Artwork highlighting the importance of the ocean is unveiled at BlueFish Project meeting" – 19 Medi 2018
Sianel YouTube y Sefydliad Morol - Fideo – Demystify
https://www.youtube.com/channel/UCDHUpX9NzHO-pJtXZ90miEA
Oceans of Learning
https://www.marine.ie/Home/site-area/areas-activity/education-outreach/irelands-coastal-communities
Cyfres Oceans of Learning yn dathlu Celf o'r Cefnfor
https://www.marine.ie/Home/site-area/areas-activity/education-outreach/art-ocean
Cyfarfodydd: Cyfarfod eNGO yn MI Wilton Park House Dulyn: 28 Chwefror 2019
The Skipper Expo International. Galway: 8 – 9 Mawrth 2019
Gweithdy Gwe Bwyd – Sefydliad Morol Banc Arklow: 9 Ebrill 2019
Diwrnod yr UE: 9 Mai 2018-2019
Aelodau Brenhinol Sweden, y Brenin Carl Gustaf a'r Frenhines Sylvia: Cyflwyno BF WP 2.4. 24 Mai 2019
https://www.marine.ie/Home/site-area/news-events/press-releases/duke-and-duchess-cambridge-meet-marine-institute-during-first
Cyfarfod â Llysgennad Norwy i Iwerddon - 09/03/2020
Ymgysylltu â'r Gymuned Arfordirol: Seafest – Cork, 7 – 9 Mehefin 2019
Gweithdy Gwe Bwyd – Sefydliad Morol Banc Arklow: 9 Ebrill 2019
Economi'r Môr a Chymunedau Arfordirol Iwerddon.
Economi'r Môr a Chymunedau Arfordirol Cymru

CYHOEDDIADAU:
Erthygl Cylchgrawn Skipper: "Capturing the Importance of the Ocean for Irish and Welsh Coastal Communities through Art" Ebrill 2019
Addasiad hinsawdd DAFM/Seafood LlC -BlueFish – Astudiaeth Achos Cysylltu Celf a Gwyddoniaeth (6) Llyfryn
DEMYSTIFY Casgliad o Waith Celf a gynhyrchwyd ar gyfer y Prosiect BlueFish - ISBN: 978-1-902895-68-0

GWEITHGAREDD 3.1 CREGYN BYLCHOG

CYFRANOGWYR: O Tully, M Sheridan (MI); CL Szostek, LK Southworth, MJ Kaiser (BU)

AMCANION: Gwella gwybodaeth am stociau cregyn bylchog ym Môr Iwerddon:

1. Disgrifio a mapio dosbarthiad cregyn bylchog o ddata pysgodfeydd.
2. Cynnal arolygon ar longau masnachol ac ymchwil i gasglu data dal o dan amodau amgylcheddol amrywiol
3. Cynnal arolygon annibynnol ar bysgodfeydd i amcangyfrif biomas a pherthynas biomas â gwaddodion llawr y môr
4. Gwella rhaglenni casglu data pysgodfeydd presennol i ddarparu data newydd ar atgynhyrchu a strwythur maint ac oedran.
5. Defnyddio data hanesyddol am ymdrech bysgota, dal ac amgylcheddol i fodelu sut y mae amrywiadau mewn cyfradd dal cregyn bylchog yn gysylltiedig â pharamedrau amgylcheddol.

SEFYDLIAD MOROL – PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Dosbarthiad cregyn bylchog a'r cydberthyniadau gofodol â strwythur gwaddodion
2. Cyfres amser (2012-2019) o ddata pysgodfeydd ac amgylcheddol a gasglwyd ar gyfer modelu data cyfradd dal (mynegeion statws stoc)
3. Cysylltedd rhwng stociau ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd a nodwyd drwy gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth (WP5)
4. Nodwyd amserlenni atgenhedlu tymhorol ar gyfer cregyn bylchog ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.
5. Cynhaliwyd modelu mynegeion toreithrwydd cregyn bylchog ac effeithiau newidynnau eigionig. Bydd y gwaith hwn yn parhau ar ôl Bluefish.

Dwysedd biomas
Geneteg Bluefish 2017



Geneteg Tuskar 2019
Geneteg CS Alltraeth 2019
Geneteg CS Ar y Glannau 2018

Ffigur 1: Biomas cregyn bylchog yn y Môr Celtaidd (chwith) a Môr Iwerddon (canol) o arolygon. Pwyntiau samplu ar gyfer astudiaethau genetig ar gysylltedd rhwng y ddwy ardal (de)).

Ceredigion
Y Môr Celtaidd
Sianel D
GDd Môr Iwerddon
De Môr Iwerddon
G y Sianel
G Môr Iwerddon

Alltraeth Celtaidd – Datblygu
Alltraeth Celtaidd – Aeddfed
Alltraeth Celtaidd – Wedi Darfod





dyddiadamser / Wythnos

CPUE (KG/carthu/VMS.awr)

Ffigur 2: Mynegeion dal cregyn bylchog a luniwyd ar gyfer 2010-2019 (chwith) ar gyfer modelu yn erbyn newidynnau eigionig (tymheredd, cerrynt gwaelod). Patrymau tymhorol aeddfedrwydd cregyn bylchog yn y Môr Celtaidd (de).

BANGOR – PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Cwblhawyd arolygon pysgotwyr a nodwyd ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar effeithlonrwydd llusgrwydo.
2. Data dal cregyn bylchog, amgylcheddol a mesurydd cyflymu llusgrwydo a gasglwyd ar gwch pysgota masnachol a'r RV Prince Madog. Mae modelau'n dangos ychydig o arwyddocâd uchder y tonnau amrywiol, sy'n dangos mai cyflwr y môr yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar gyfraddau dal. Roedd y canlyniadau hyn yn cyd-fynd ag ymatebion i holiaduron.
3. Roedd data hanesyddol am ymdrech bysgota a glaniadau a data amgylcheddol wedi'u modelu i ganfod a ellir cysylltu ymdrech dal fesul uned (CPUE) â newidynnau amgylcheddol penodol.
4. I gloi, mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar effeithlonrwydd dal o lusgrwydo (llong, tywydd, amgylcheddol). Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn canfod i ba raddau y mae pob ffactor unigol yn dylanwadu ar gyfradd dal ac effeithlonrwydd llusgrwydo cyffredinol.



Ffigur 3: chwith - camerâu GoPro wedi'u gosod ar y llusgrwyd; de – mesurydd cyflymu wedi'i osod y tu mewn i gas gwrth-ddŵr ar ben llusgrwyd.



Ffigur 2: Data sy'n dangos echelin Z o ddarlleniadau mesurydd cyflymu o lusgrwydo cregyn bylchog yn ystod tri digwyddiad pysgota ar wahân. Mae hyd y llinellau'n ymwneud â'r grym a gaiff ei roi ar y llusgrwyd wrth iddo fownsio ar hyd gwely'r môr..

Yn gyffredinol, gall ymchwilio ymhellach i amodau'r môr sydd eu hangen i ddeall sut y mae amodau'r môr yn effeithio ar effeithlonrwydd offer dal lywio rheolaeth fwy effeithiol o'r bysgodfa; gallai cyfyngu ar weithgareddau pysgota ar adegau pan fo cyflwr y môr yn uchel ac effeithlonrwydd dal yn isel leihau'r effaith ar wely'r môr a gwella'r CPUE (ymdrech dal fesul uned) gyffredinol.

ALLBYNNAU:

Cyfarfodydd: Cyflwynwyd canlyniadau asesiadau arolwg ar lannau'r Môr Celtaidd yng Ngweithdy Pectinid Rhyngwladol 2019 a gynhaliwyd yn Santiago de Compostela, Sbaen. Ymchwil a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn 2019 a Gweithgor Asesu Cregyn Bylchog ICES 2020, ac mae manylion hyn wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol WGScallop a gyhoeddwyd gan ICES.

Ymgysylltu â'r gymuned arfordirol: Festival of Discovery 2019

CYHOEDDIADAU YMCHWIL

Data a gyflwynwyd i alwad ddata swyddogol gyntaf ICES am gregyn bylchog ym mis Medi 2020

Prosiect MSc wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2019

Gweithgaredd 3.2 Draenogiaid y Môr Ewropeaidd (*Dicentrarchus labrax*)

CYFRANOGWYR: N Ó Maoiléidigh, R O'Neill (MI); PW Shaw, NJ McKeown (AU); F Ratcliffe (SU); I McCarthy, P Robins, L Southworth (BU)

AMCANION: Cynhaliodd y partneriaid a oedd yn gweithio o fewn WP 3.2 ymchwil i asesu effaith bosibl newid hinsawdd ar ddosbarthiad draenogiaid y môr yn rhanbarthau'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon. Y prif amcanion oedd:

1. Asesu effaith bosibl newid hinsawdd ar ddosbarthiad draenogiaid y môr yn rhanbarthau'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon drwy ddefnyddio biotelemetreg a samplo eDNA.
2. Cymhwyso technegau moleciwlaidd (metabarcodio samplau cyflawn a dŵr) i nodi casgliadau silio o bysgod larfaol yn y Môr Celtaidd a Môr Iwerddon a datblygu marciwr moleciwlaidd nad yw'n niwtral (MHC) i asesu arwyddion dethol moleciwlaidd a chysylltedd poblogaeth poblogaethau draenogiaid y môr yn nwyrain Cefnfor yr Iwerydd.
3. Nodi silfeydd posibl ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd drwy ddefnyddio modelau tracio gronynnau biotelemetrig ac ôl-weithredol.
4. Astudio symudiad ecolegol draenogiaid y môr ym Môr Iwerddon drwy ddefnyddio dadansoddiad isotop sefydlog ac i archwilio potensial microcemeg otolith fel dull adnabod tarddiad rhanbarthol draenogiaid y môr yng Nghymru.
5. Nodi maint rhyng-gysylltedd stociau o ddraenogiaid y môr o wahanol leoliadau yn rhanbarth y Môr Celtaidd/Môr Iwerddon drwy ddefnyddio technegau genetig.

PRIF GYFLAWNIADAU – Y SEFYDLIAD MOROL

- Cafodd cyfanswm o 324 o bysgod eu tagio yn rhan o brosiect BlueFish - 21 â thagiau acwstig (a thri sbesimen ychwanegol yn cael eu canfod a oedd wedi eu tagio yn rhan o ymchwil blaenorol), 9 â thagiau PSAT a 294 arall â thagiau adnabod plastig yn unig.
- Canfu dadansoddiad o'r data canfod acwstig o'u cymharu â'r data amgylcheddol fod pysgod a oedd wedi'u tagio yn fwy tebygol o fod yn bresennol mewn dŵr mwy hallt a chynhesach.

Ffig. 1. Tag PSAT Wildlife Computers MiniPat a ddefnyddiwyd i dracio pysgod llawndwf mawr alltraeth

- Gallai hyn awgrymu o dan ragfynegiadau presennol o newid hinsawdd nad yw cynnydd mewn tymheredd o bosibl yn cael effaith ar bresenoldeb/dosbarthiad draenogiaid y môr ond gallai

cynnydd mewn glawiad blynyddol a ragfynegir (a'r gostyngiad mewn halwynedd mewn systemau morydol o ganlyniad i hynny) gael effaith negyddol ar bresenoldeb y rhywogaeth mewn dŵr y glannau yn Iwerddon.

- Mae angen rhagor o ymchwil i archwilio'r effeithiau posibl hyn ar gamau bywyd cynnar mwy agored i niwed draenogiaid y môr.
- Er i'r rhan fwyaf o bysgod a dagiwyd yn acwstig ddangos lefel uchel o breswyliad yn yr ardal lle cawsant eu tagio, cafwyd bod rhai sbesimenau wedi ymgymryd â mudo sylweddol - gan gynnwys un unigolyn a deithiodd o dde-ddwyrain Iwerddon i'r gogledd-orllewin ac yn ôl, ddwywaith



Canfyddiadau acwstig draenogiaid y môr #24636

1. Tagiwyd yn Cullenstown ar 05/03/2019
2. Aber Boyne
3. Bae Dundalk
4. Pwynt Sant Ioan
5. Bae Bannow
6. Lough Foyle

Cilometrau

Ffig. 2. Canfyddiadau o bysgod a dagiwyd yn acwstig 24236 o amgylch arfordir Iwerddon



Pysgod PTT 62833
Wedi'u tagio:
Lleoliad tagio:
Dyddiau'n rhydd:
Brasamcan o'r pellter a deithiwyd:

Mis
Defnydd tagiau
Rhagfyr
Ionawr
Chwefror
Dadgysylltiad tagiau

Ffig. 3. Llwybr mudo a fodelwyd ar gyfer pysgod a dagiwyd â PSAT 62833 (golchwyd tag i'r lan ar Ynys Môn yng ngogledd-orllewin Cymru)

- Datgelodd pysgod â thagiau PSAT lefel uchel o ryng-gysylltedd rhwng Iwerddon a Chymru a gwelwyd mudo i ddyfroedd arfordirol ar ddwy ochr Môr Iwerddon.
- Datgelodd y draenogiaid môr cyntaf i'w tagio â PSAT ar arfordir gorllewinol Iwerddon hefyd batrwm mudo diddorol iawn mewn stoc ac ar hyn o bryd nid oes dealltwriaeth lawn o hyn.



Ffig. 4. Llwybr mudo a fodelwyd o ddraenogiaid y môr a dagiwyd â PSAT oddi ar arfordir gorllewinol Iwerddon

PRIF GYFLAWNIADAU – PRIFYSGOL BANGOR

- Mae modelau tracio gronynnau wedi dangos silio rhanbarthol gyda draenogiaid y môr yn ne Cymru yn defnyddio mannau silio ym Môr Hafren a glannau Celtic Deep ac yn agos at bob ardal fagu a samplwyd. Yn sgil dyfroedd cynhesach oherwydd newid hinsawdd mae'n bosibl y gallai fod rhywfaint o ddraenogiaid y môr yn silio ymhellach i'r gogledd ym Môr Iwerddon erbyn hyn.
- Dengys astudiaeth o ecoleg symud draenogiaid y môr ym Môr Iwerddon drwy ddefnyddio dadansoddiad isotop sefydlog fod y gorgyffwrdd yn lled y gilfach isotopig rhwng draenogiaid y môr o dde Cymru/de-ddwyrain Iwerddon yn awgrymu mwy o gysylltedd rhwng y pysgod hyn, h.y. mae'n debygol bod y pysgod hyn yn bwydo o fewn ardaloedd sy'n debyg yn isotropig yn y môr, mwyaf tebygol o fewn y Celtic Deep a gogledd y Môr Celtaidd.
- Dangosodd microcemeg otolith a ddefnyddiwyd i nodi tarddiad rhanbarthol draenogiaid môr yng Nghymru amrywioldeb sylweddol yng nghemeg otolith craidd mewn pysgod llawndwf a dangosodd nad oedd pysgod llawndwf a ddaliwyd yng nghanolbarth neu dde Cymru o anghenraid yn dod o ardaloedd magu yn y ddau ranbarth hyn yn unig. Felly, ni ellir defnyddio microcemeg otolith craidd i ddynodi tarddiad rhanbarthol pysgod ifanc.





Aberdyfi
Ynys Môn
Ar lannau Iwerddon
Alltraeth Iwerddon
Alltraeth
Saundersfoot



PRIF GYFLAWNIADAU – PRIFYSGOL ABERTAWE

- Datblygom brotocol ar gyfer adnabod a meintioli larfau pysgod drwy ddefnyddio metabarcodio meinwe cyflawn, a'r canlyniad oedd ffyrdd amgen ymarferol, effeithlon o'u cymharu â dulliau morffolegol.
- Gwnaethom gymharu sampl dŵr â metabarcodio meinwe cyflawn. Canfu'r ddau fath o sampl craidd o 12 tacson, gyda chytundeb cyfartalog o ran canfod o 75% ar lefel safle samplo. Dengys hyn fod metabarcodio eDNA yn darparu dull monitro ymarferol a chyflym ar gyfer rheoli tacsonau allweddol.
- Gwnaethom bennu nodweddion dethol moleciwlaidd, ail-gyfuno a gwahanredu rhanbarthol yn yr ardal glymu peptid draenogiaid môr dosbarth 1 am y tro cyntaf o ran unigolion a ddaliwyd yn wyllt, gan ddangos potensial y marciwr hwn i wahaniaethu rhwng rhanbarthau.



ALLBYNNAU:
Cyfarfodydd: Mae ymchwil draenogiaid y môr BlueFish wedi'i hyrwyddo mewn cyfarfodydd gyda gwyddonwyr a physgotwyr draenogiaid y môr ar brosiectau cyflenwol (prosiectau a ariennir gan yr EMMF, Fisher-Scientist Project a Chadwraeth Pysgodfeydd Draenogiaid Môr). Cynhadledd Cymdeithas Pysgodfeydd Ynysoedd Prydain (FSBI) 2018: Cyflwyniad poster â'r teitl 'Adaptive responses of sea bass to environmental change'. Cynhadledd FSBI 2019: cyflwyniad llafar llawn â'r teitl 'Spatial distribution analysis of fish larvae in the Celtic and Irish seas using environmental DNA' (Llun 2). Tystiolaeth Amgylcheddol 2019 – cynhadledd Tystiolaeth Forol – Platfform yr Amgylchedd Cymru: cyflwyniad llafar llawn â'r teitl 'Rapid methods for quantitative fish larvae community assessment using metabarcoding'.
Ymgysylltiad cymuned arfordirol: Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe 2019 a Gŵyl Ddarganfod (BU) 2019 – mae digwyddiadau allgymorth yn cyflwyno plant ac oedolion i'r ymchwil a gynhelir yn rhan o brosiect BlueFish.

CYHOEDDIADAU YMCHWIL
Ratcliffe, F. C., Uren Webster, T. M., Rodriguez-Barreto, D., O'Rorke, R., Garcia de Leaniz, C., a Consuegra, S. 2021. Quantitative assessment of fish larvae community composition in spawning areas using metabarcoding of bulk samples. *Ecological Applications,* **31**(3). DOI: 10.1002/eap.2284

Ratcliffe, F. C., Uren Webster, T. M., Garcia de Leaniz, C., a Consuegra, S. (2021). A drop in the ocean: Monitoring fish communities in spawning areas using environmental DNA. *Environmental DNA*, **3**(1), 43-54.

Yn rhan o fonitro acwstig, cofnodwyd canfyddiadau o bysgod o brosiectau tracio eraill gan y Sefydliad Morol. O ganlyniad enwyd y Sefydliad Morol fel awduron ar y papur – Davies, P., Britton, R.J., Nunn, A.D., Dodd, J.R., Crundwell, C., Velterop, R., **Ó'Maoiléidigh, N., O'Neill, R**., Sheehan, E.V., Stamp, T., Bolland, J.D. (2020). Novel insights into the marine phase and river fidelity of anadromous twaite shad *Alosa fallax* in the UK and Ireland. *Aquatic Conservation*, **30**(7), 1291-1298. DOI: 10.1002/aqc.3343

Yn cael eu paratoi:
Mae Ian McCarthy (BU) ar hyn o bryd yn paratoi dau bapur yn seiliedig ar yr isotop sefydlog a'r gwaith ar leoliad silio.
Mae'r Sefydliad Morol ar hyn o bryd yn paratoi dau bapur yn seiliedig ar effeithiau posibl newid hinsawdd ar y defnydd o gynefinoedd morydol gan ddraenogiaid môr Ewropeaidd a hefyd ar ymddygiad symud draenogiaid môr a dagwyd ar hyd arfordir Iwerddon.

GWEITHGAREDD 3.3 HADAU PYSGOD CREGYN

CYFRANOGWYR: P Daly, T O'Carrer, B Dallaghan, R Browne, A Andrews, J Gallagher (BIM); PW Shaw, I Skujina, NJ McKeown (AU); S Albuixech Marti, G Kett (UCC); P Robins (BU).

AMCANION:

1. Mapio gwelyau pysgod cregyn (cregyn gleision) drwy arolygon a data sy'n bodoli eisoes – (BIM, BU).
2. Modelu rhagfynegiadol (trac gronynnau 3D) o symudiad larfaol planctonig sy'n cysylltu â WP5 - (BU, BIM).
3. Nodi ac asesu paramedrau amgylcheddol sy'n benodol i safle, effeithiau anthropogenig, ffactorau biolegol - sy'n dylanwadu ar atgynhyrchu cregyn gleision, gwasgariad sŵoplancton a pherfformiad hadau (BIM, BU, UCC).
4. Cynnal astudiaeth genetig i weld beth yw'r berthynas rhwng poblogaethau cregyn gleision – larfae - spat - cyn ac ar ôl ymgartrefu (AU, BIM).
5. Lledaenu'r wybodaeth hon i BBaChau a Rhanddeiliaid o Iwerddon a Chymru drwy adroddiad, gweithdai a gwefan bwrpasol y gweithrediad a BIM a gwefannau cysylltiedig eraill.

Ffigur 1a. Mapio cregyn gleision.

Ffigur 1b. Archwiliad microsgopig o larfae deufalf.

PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Dros nifer o flynyddoedd, gwnaethom fapio a mesur strwythur poblogaeth cregyn gleision gwahanol welyau cregyn gleision rhynglanwol ar hyd Môr Iwerddon (Ffigur 1).
2. Gwnaethom ymgymryd â monitro larfaol. Casglwyd samplau Swoplancton drwy bwmpio ar ddyfnderau ar wahân yn Wexford, Arklow a Malahide (Ffigur 2).
3. Casglwyd samplau larfaol deufalf drwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol leoliadau daearyddol. Archwiliwyd y larfae a ddeilliodd o hynny ar gyfer maint, ac roedd detholiad wedi'i ynysu ar gyfer dadansoddiad genetig gan AU.

4. Aseswyd larfae cregyn gleision a fagwyd yng Ngorsaf Ymchwil Bantry o dan wahanol gyfundrefnau tymheredd, halwynder a pH i fesur effeithiau'r triniaethau hyn.
5. Astudiaethau drôg (tri rhyddhad drôg) ac adferiad i asesu'r posibilrwydd o symud larfae cregyn gleision. Gwnaeth dau ddrôg deithio i'r DU, a gwnaeth un lywio ei ffordd o amgylch Ynys Manaw, gan wneud ei ffordd i Drogheda.
6. Defnyddiwyd casglwyr sil mewn tri bae a'u monitro ar gyfer ymgartrefu. Dim ond recriwtio cyfyngedig a welwyd ar un casglwr rhynglanwol.
7. Mynegai Cyflwr (a gafodd ei fonitro yn Rogerstown, Malahide a Dun Laoghaire) a gwnaed mesuriadau mynegai gonad. Mae adroddiad ar ddatblygiad gonad wedi'i gynhyrchu ynghyd â pharatoi micrograffau.
8. Cofnodwyd mesuriadau ffisiogemegol lle casglwyd larfae a'u cyfrif ar ddyfnderoedd gwahanol (1, 5 a 10m).
9. Casglu gwybodaeth o'r gorffennol a'r presennol sy'n berthnasol i'r prosiect.
10. Adroddiadau technegol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Pysgota
Gwely cregyn gleision

Hadau neu sil cregyn gleision yn ymgartrefu ar wely'r môr

Geneteg
Sberm
Wyau
Larfae
'Bioturbation' ac erydu
Detritws – Llaid Gwaddodion Cregyn Gleision

Plancton (bwyd anifeiliaid)

Gonad
Anadlu
Cig
Twf
Cragen
Calcheiddiad

Adar ysglyfaethus
Pysgod ysglyfaethus
Marwoldeb naturiol
Gwaddod a chladdu goddefol

Ffigur 2: Hadau Pysgod Cregyn BlueFish

ARGYMHELLION:

1. Hybu llwyddiant poblogaethau cregyn gleision rhynglanwol drwy wella recriwtio drwy reolaeth weithredol lle bo angen.

2. Astudio ecoleg is-haenau rhynglanwol lle mae ymgartrefiad cregyn gleision yn digwydd i asesu methodolegau ar gyfer gwella eu gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac annog bioamrywiaeth.
3. Gwella cryfder larfae cregyn gleision a'u cadw mewn baeau er mwyn gwella recriwtio.
4. Gwella diogelwch sil sydd wedi ymgartrefu rhag ysglyfaethwyr yn y cyfnod cynnar.
5. Monitro a gwerthuso gwelyau cregyn gleision rhynglanwol aeddfed bob blwyddyn i sefydlu eu hiechyd ac unrhyw newidiadau. Mae'r cregyn gleision hyn yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd yr amgylchedd a llwyddiant organebau eraill.
6. Sefydlu a dogfennu effeithiau anthropogenig lleol ar stoc pysgod cregyn a cheisio eu rheoli'n briodol.
7. Gwella'r ddealltwriaeth o ddrifft larfa cregyn gleision a recriwtio drwy werthuso arwyddocâd gwahanol boblogaethau stoc wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol.
8. Ymchwilio i botensial gwelyau pysgod cregyn naturiol i liniaru lefelau CO_2.

ALLBYNNAU:
Cyfarfodydd: Yn cynnwys cynhadledd newid yn yr hinsawdd (4 Ebrill 2019, Rorvik, Norwy), Integrate (Acwafeithrin Amltroffig) (7fed ac 8fed Mawrth 2019, NUI Galway), Cyfarfod Gwyddor BlueFish (13eg a 14 Mawrth 2019, Aberystwyth).
Adrodd i staff rhanbarthol a thechnegol BIM am ganfyddiadau a chyfleoedd.
Ymgysylltu â'r gymuned arfordirol: Cyfarfod rhanddeiliaid ar waith ac amcanion prosiect BlueFish yn BIM, y Ganolfan Pysgodfeydd Rhanbarthol, Castletownbere (12 Mehefin 2018), Sgwrs siop goffi ar waith prosiect BlueFish (15 Ebrill 2019, Westport, Co. Mayo), Cinio a dysgu (29 Mai 2019, BIM, Dun Laoghaire, Co. Dulyn).

GWEITHGAREDD 4.1 RHYWOGAETHAU GORESGYNNOL

CYFRANOGWYR: KE Costello, G Kett, SA Lynch, R McAllen, RM O'Riordan, SC Culloty (UCC); EA Quinn, S Malkin, AF Rowley, CJ Coates (SU)

AMCANION:

1. Cynnal astudiaeth ddesg ar bwysigrwydd cregyn dwygragennog morol o ran cyflwyno lletywyr-parasitiaid goresgynnol ac adolygu rhywogaethau goresgynnol sy'n bresennol ar hyn o bryd yn rhanbarth Môr Iwerddon.
2. Ymchwilio i swyddogaeth tiwnigogion/chwistrellwyr môr goresgynnol fel cronfeydd pathogenau molysgaidd.
3. Nodi gwahaniaethau rhanbarthol mewn cymunedau bacterol sy'n gysylltiedig â sŵoplancton a phathogenau dyframaethu ledled dau fôr silff (Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd).
4. Asesu'r potensial ar gyfer cyflwyno/atal rhywogaethau goresgynnol a lledaeniad eilaidd gan ddefnyddio symudiadau llongau mewn porthladdoedd morol ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.
5. Cynnal astudiaeth ddesg ar ecoleg clefyd yr ewin mochyn goresgynnol *Crepidula fornicata.*
6. Pennu'r pathogenau/parasitiaid sy'n gysylltiedig â *C. fornicata* ledled dau safle pwysig yng Nghymru – adfer wystrys brodorol (Bae Abertawe) a gweithgarwch masnachol (Aberdaugleddau).

PRIF GYFLAWNIADAU:

1. Mae'r ddwy astudiaeth ddesg ar swyddogaeth cregyn dwygragennog morol mewn achosion o gyflwyno lletywyr-parasitiaid goresgynol ac ar amrywiaeth pathogen/parasitiaid, mynychder ac ecoleg clefyd yn *C. fornicata* wedi'u cwblhau yn UCC ac yn PA, yn y drefn honno.
2. Cynhaliwyd arolygon maes gan y ddau bartner i (a) asesu swyddogaeth tiwnigogion fel cronfeydd haint, (b) nodi pathogenau/parasitiaid yr ewin mochyn.
3. Cwblhawyd samplu plancton alltraeth gyda dadansoddiadau biowybodeg y Celtic Voyager a bacteria-swoplancton.
4. Cynhaliwyd dadansoddiad meta o ddata llongau i asesu llwybrau mynediad posibl ar gyfer rywogaethau goresgynnol i borthladdoedd Iwerddon a rhanbarth Môr Iwerddon.
5. Gwnaethom nodi ffactorau allweddol wedi'u priodoli i lwyddiant goresgynnol *C. fornicata* yn y rhanbarth.



Ffigur 1: Swyddogaeth rhywogaethau tiwnigogion /chwistrellwyr môr goresgynnol fel cludwyr/cronfeydd grwpiau pathogenau molysgaidd.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

1. Gall cysylltiadau cynhenid rhwng dyframaeth cregyn dwygragennog a symudiad rhywogaethau goresgynnol h.y. symudiad stociau pysgod cregyn alluogi rhywogaethau goresgynnol a'u parasitiaid cysylltiedig i symud ac wedyn i gytrefu safleoedd eraill.
2. Gall rhywogaethau goresgynnol gynnal pathogenau sy'n effeithio ar gregyn dwygragennog masnachol gan gynnwys wystrys gwastad, wystrys y Môr Tawel (Ffigur 1) a chocos.
3. Gall eithafion meteoroleg yn agos at y lan (e.e. tywydd poeth morol oherwydd newid hinsawdd) gael effaith ar blaniad larfal, sefydliad a chynnyrch atgenhedlol dilynol rhai rhywogaethau goresgynnol.
4. Nodwyd cymunedau microbaidd penodol sy'n gysylltiedig â swoplancton yn rhanbarthau Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd. Mae modd defnyddio'r wybodaeth hon i bennu'r potensial ar gyfer gwasgaru pathogenau yn yr ardaloedd hyn a hwyluso'r broses o ddewis safleoedd yn effeithlon ar gyfer safleoedd tyfu cregyn dwygragennog yn y dyfodol, ar y môr ac alltraeth.
5. Gwelwyd cysylltedd uchel mewn llwybrau llongau rhwng Iwerddon a phorthladdoedd rhyngwladol lle mae rhywogaethau goresgynnol penodol wedi'u cadarnhau, sy'n awgrymu bod cyfiawnhad dros baratoi ar gyfer eu cyrraedd. Mae'r potensial ar gyfer lledaeniad eilaidd rhywogaethau goresgynnol yn uchel.
6. Datgelodd sgrinio aml-adnodd 1,800 ewin mochyn ddiffyg tueddiad i bacteriosis, ac absenoldeb vibrios y gwyddys eu bod yn bathogen i bobl a physgod cregyn masnachol.



Rhyddhau Gelyn
Llwybr Goresgyniad

Gwesteiwyr Brodorol
'Spillback' Parasitiaid
Gorlif Parasitiaid
Camau Parasitiaid Byw yn Rhydd
Newid Hinsawdd

